# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DDYDD MAWRTH, 21 MAI 2019 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd
Y Cynghorydd C. Andrews - Is-Gadeirydd

Cynghorwyr:

P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, D. Havard, M.P. James, B. Miles, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Simmonds ac R. Whiting.

P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad).

Ynghyd ag:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Ellis (Arweinydd ar gyfer Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), C. Jones (Cydlynydd Fforwm Ieuenctid), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), R. Roberts (Rheolwr Perfformiad), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), A. West (Ysgolion yr 21ain Ganrif, Rheolwr Derbyniadau a Gwaharddiadau), M. Jacques (Swyddog Craffu) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: M. Barry (Rhiant-lywodraethwr), Mr R. Morgan (Rhiant-lywodraethwr), Mrs P.J. Ireland a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaeth ROC Caerdydd dros Addysg).

Cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid: Imogen Jones (Cadeirydd), Luke Parker (Is-gadeirydd), Ewan Kinsman (Cynrychiolydd Dysgu), y Cynghorydd M. Evans (Hyrwyddwr Ieuenctid).

### 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a diolchodd i'r Cynghorydd D. Havard am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg.

### 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W. David, J. Simmonds, Mr D.

Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili) ac S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## 3. COFNODION - 2 EBRILL 2019

PENDERFYNWYD y dylai cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ddydd Mawrth 2 Ebrill 2019 (rhifau cofnodion 1-10) gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Dymunai'r Cadeirydd nodi o dan Eitem 8 ar yr Agenda – Cylch gorchwyl Ôl-16/Un Rhyw a Lleoedd Gwag – mai'r ail gynrychiolydd a enwebwyd ar gyfer Grŵp Plaid Cymru yw'r Cynghorydd T. Parry.

## 4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad a oedd yn amlinellu Blaenraglen Waith ddrafft y Pwyllgor Craffu Addysg rhwng mis Mai 2019 a mis Mai 2020.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi bod Swyddogion wedi gofyn, ers y cyfarfod diwethaf, am gael symud yr Adroddiad Cyfalaf Ysgolion a'r Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd o 31 Mawrth 2020 i 24 Chwefror 2020. Yn ogystal, nodwyd bod y Diben a'r Prif Faterion ar gyfer y ddau adroddiad bellach wedi'u diweddaru.

Gofynnodd un o'r Aelodau am ragor o wybodaeth am yr Adroddiad Adolygu Cymorth Dysgu Ychwanegol, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2020, a'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad mor hwyr yn y rhaglen. Esboniodd y swyddogion fod adolygiad yn cael ei gynnal o'r Ddarpariaeth Cymorth Dysgu Ychwanegol, sydd wedi dechrau gydag ymgynghoriad â Chynorthwywyr Addysgu. Oherwydd y ffordd y mae rhai o'r staff yn cael eu lleoli, cytunwyd, mewn ymgynghoriad ag Undebau Llafur a Phenaethiaid, y bydd adolygiad llai yn cael ei gynnal gyda Chynorthwywyr Addysgu o Ganolfannau Adnoddau Arbennig. Yn dilyn hyn, byddai'r canlyniadau'n cael eu hadrodd drwy'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet, a phe bai'r broses yn effeithiol ac yn llwyddiannus, byddai'r un dull yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y grŵp mwy o Gynorthwywyr Addysgu. Fodd bynnag, nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), a bod swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r gobaith o benodi'n fuan.

Ar ôl cael ei ystyried, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad a'r newidiadau a gynigiwyd gan y Swyddog.

PENDERYNWYD, yn amodol ar y newidiadau uchod, y dylai'r Flaenraglen Waith sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad gael ei chymeradwyo.

## 6. ADRODDIADAU'R CABINET

Nid oedd yr un o'r adroddiadau Cabinet a restrwyd ar yr agenda wedi cael eu galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

## ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19 AR AMCAN LLESIANT 1 YNG NGHYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-23

Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd tuag at gyflawni Amcan Llesiant 1 - gwella cyfleoedd addysg i bawb - yng Nghynllun Llesiant Corfforaethol 2018-23.

Nodwyd bod Amcan Llesiant 1 yn anelu i wella cyfleoedd addysg i bawb. Roedd yr adroddiad a'r atodiad yn amlinellu'r cynnydd yn y flwyddyn gyntaf o'i weithredu.

Yn ystod 2018-19, gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r Amcan Llesiant i wella cyfleoedd addysg i bawb. Cwblhawyd nifer o gamau gweithredu ac mae nifer o feysydd gweithredu yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o weithredu'r Cynllun, lle y gwnaed gwaith paratoadol sylweddol gyda rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau y caiff modelau cydweithredol eu datblygu i wella cyfleoedd addysg i bawb.

Mae'r effaith fesuradwy wedi bod yn gyfyngedig hyd yma, er bod enghraifft o'r dull cydweithredol o gynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu modelau cyflwyno tymor hir wedi arwain at lwyddiant sylweddol o ran sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer y seilwaith, er enghraifft, £5,458,495 ar gyfer datblygu lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac £850,000 ar gyfer ehangu lleoedd mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg; £5,110,989 ar gyfer datblygu lleoliadau gofal plant ar draws y fwrdeistref; a £194,750 ar gyfer gwaith cynnal a chadw Dechrau'n Deg ar gyfer nifer o safleoedd.

Nodwyd y bydd y buddsoddiad sylweddol yma gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf yn ei gwneud hi'n bosib cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg, i wella hygyrchedd ar gyfer teuluoedd a phlant yn ogystal â chynnig darpariaeth bwrpasol i ddiwallu anghenion ein holl blant a phobl ifanc gan gefnogi cyfleoedd addysg gwell i bawb.
Mae'r cynnydd hyd yma'n dangos bod gwasanaethau ar y trywydd cywir i gyflawni'r camau gweithredu er mwyn ateb yr amcan Llesiant. Mae'r amcan cyffredinol yn parhau i ateb y gofyn, er bod angen newidiadau i rai o'r camau a gwblhawyd.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Diolchodd Aelod i'r Swyddog am yr adroddiad ac am waith Dechrau'n Deg a gofynnodd am ragor o wybodaeth am gynlluniau ychwanegol i ehangu'r gwasanaeth. Esboniodd y Swyddogion fod y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith cyfalaf i wella a datblygu'r safleoedd Dechrau'n Deg presennol yn y fwrdeistref sydd angen buddsoddiad ac atgyweirio.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer datblygu lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ehangu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg. Eglurodd swyddogion fod dwy gronfa ariannu ar gael, un yn benodol i ehangu gwasanaethau i gynnig mwy o leoedd i siaradwyr Cymraeg a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ac un arall i wella'r cyfleusterau lle y cynigir darpariaeth.

Trafododd y Pwyllgor Craffu'r Atodiad i'r adroddiad a chododd nifer o bryderon ynghylch y gydberthynas rhwng yr adroddiad eglurhaol a'r atodiad o ran targedau a pherfformiad, geiriad,

byrfoddau, acronymau a chynllun, a theimlai fod y ddogfen yn anodd ei darllen a'i deall. Ystyriodd y Swyddogion y pwyntiau a chytuno i ail-anfon Geirfa'r Acronymau a defnyddio llai o acronymau lle bo modd mewn dogfennau yn y dyfodol.

Yn olaf, wrth nodi llwyddiant y Digwyddiadau Swyddi Gwag Byw, roedd y Pwyllgor Craffu am ddiolch i'r Swyddog Arwain a'i gydweithwyr am ddigwyddiad trawiadol a llwyddiannus.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, y dylai cynnwys yr adroddiad gael ei nodi ac y dylai'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn gyntaf o ran Amcan Llesiant 1, sef gwella cyfleoedd addysg i bawb, gael ei gymeradwyo.

## 8. FFORWM IEUENCTID – Y DIWEDDARAF AM FLAENORIAETHAU BLAENOROL

Mae'r adroddiad, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 24 Ebrill 2019 ac a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Craffu Addysg am Oes ar 2 Ebrill 2019, yn hysbysu'r Aelodau am y materion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc drwy Fforymau Iau a Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid. Nododd y Pwyllgor Craffu nad oedd Cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid yn gallu bod yn bresennol a chyflwyno yn y cyfarfod diwethaf, ond eu bod wedi'u gwahodd yn ôl i gyflwyno'r adroddiad ar flaenoriaethau blaenorol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r Fforwm Ieuenctid a rannodd y materion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc drwy Fforymau Iau ac Ieuenctid y Gwasanaethau Ieuenctid gyda'r Aelodau.

Cafodd y gwaith craffu ei wneud gyda fideo a chyflwyniad, a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf gan y Fforymau Iau ac Ieuenctid yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd y llynedd. Yn ogystal, nododd yr adroddiad y blaenoriaethau y pleidleisiwyd arnynt a nodwyd ym mharagraff 5.2 a 5.3 yn yr adroddiad. Cadarnhawyd mai 'Iechyd Meddwl' yw'r flaenoriaeth gyffredinol i'r Fforwm Ieuenctid – dylid gwella gwasanaethau gyda chymorth pobl ifanc a dylai pobl ifanc dderbyn addysg cymorth cyntaf iechyd meddwl. Blaenoriaeth gyffredinol y Fforwm Iau yw 'mwy o ymwybyddiaeth o gymorth ar gyfer cyffuriau ac alcohol'. Nodwyd y broses sy'n dilyn ar ôl nodi materion ym mharagraff 2.2 yr adroddiad.

Diolchodd y Pwyllgor Craffu i'r Fforwm Ieuenctid am ddod i'r cyfarfod ac am rannu eu cyflwyniad proffesiynol a chynhwysfawr.

Trafododd yr Aelodau'r blaenoriaethau ac roeddent yn drist iawn i nodi bod Iechyd Meddwl wedi'i ddewis fel blaenoriaeth gan y Fforwm Ieuenctid am flwyddyn arall a bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes yma. Fodd bynnag, nodwyd bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ar gyfer darpariaethau cymorth i oedolion a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl, ond bod llawer o bwysau ar wasanaethau cymorth a cheisiwyd awgrymiadau ynghylch sut y gellir gwella hyn. Nodwyd y gellir gwella'r gwasanaeth drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ifanc am eu lle ar restr aros am wasanaethau, sy'n rhywbeth y bydd y Fforwm Ieuenctid yn ymchwilio iddo.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y gwaith a oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â Thlodi Misglwyf a gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r mater yma, ac o ganlyniad eu bod wedi lansio ymgyrch mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid i ddarparu cynnyrch mewn Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Lleoliadau Ieuenctid a Llyfrgelloedd ac mae ffilm hefyd wedi cael ei chynhyrchu i'w defnyddio mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid i addysgu am urddas misglwyf.

Trafododd yr Aelodau'r dull cyfannol o weithredu a'r gwaith a wneir i fynd i'r afael â bwlio a chodi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r bwli yn ogystal â'r dioddefwr. Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am adnoddau a strategaethau i leihau bwlio. Nodwyd bod seiberfwlio yn broblem gynyddol i bobl ifanc a strategaeth a argymhellir yw "dadwenwyno digidol" lle nad yw'r unigolyn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol am gyfnod penodol o amser, sydd hefyd yn gallu gwella llesiant. Yn ogystal, mae'r Fforymau Iau ac Ieuenctid wedi lansio ymgyrch i annog pobl i beidio ag anwybyddu bwlio ac i roi gwybod am achosion.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu waith y Fforymau Iau ac Ieuenctid a gofynnodd am i rai o'r adnoddau a gafodd eu datblygu gael eu hanfon at yr Aelodau i'w defnyddio mewn grwpiau yn eu wardiau. Cytunodd y Swyddogion i anfon y wybodaeth a oedd ar gael a gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod llawer o'r adnoddau ar gael ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.58pm

Wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau i'w cytuno a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 2 Gorffennaf 2019, fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

__________________________

CADEIRYDD